# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD LLUN, 24AIN MEHEFIN, 2019**

Lleoliad

**Ystafell Dwyryd, Canolfan Gyswllt y Cyngor, Penrhyndeudraeth**

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**annession@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 17/06/19l)

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

AELODAETH

## AELODAU CABINET

Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams (Addysg)
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Cyllid)

## CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL

Mr Iwan Trefor Jones

## PENNAETH CYLLID

Dafydd Edwards

## PENAETHIAID UWCHRADD

Mr Dylan Davies – Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Dewi Lake – Ysgol y Moelwyn
Mr Dylan Minnice - Ysgol Botwnnog
Mr Andrew Roberts - Ysgol y Berwyn

## PENAETHIAID CYNRADD

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Mrs Menna Wynne Pugh – Ysgol Penybryn
Mr Alan Wynn Jones – Ysgol Nefyn
Mr Trystan Larsen - Ysgol Rhostryfan
Mr Llion Williams – Ysgol y Garnedd
Mrs Eleri Morgan Davies – Ysgol Y Gorlan

## UNDEBAU ATHRAWON

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

## LLYWODRAETHWYR

Arfon
Mr Godfrey Northam - Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Edward Bleddyn Jones – Ysgol Tregarth a Bodfeurig

Meirionnydd
Elen ap Gwilym – Ysgol Bro Tegid
Disgwyl enwebiad - Llywodraethwyr Uwchradd

Dwyfor
Mr Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Disgwyl Enwebiad – Llywodraethwr Uwchradd

## ESGOBAETH

Anest Gray Frazer

## YSGOLION EGLWYS

Owain Lemin Roberts (Ysgol Maesincla)

## YSGOLION ARBENNIG

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon

**Sylwedyddion:**

Mr Garem Jackson, Pennaeth Addysg
Mr Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau
Mr Hefin Owen, Rheolwr Cyllid y Gyfadran Datblygu
Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Mrs Alwen Watkin, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-Gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20.

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. COFNODION** 4 - 7

I gadarnhau cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2019.
(Copi'n amgaeedig)

**6. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**7. CYFRIFON TERFYNOL YSGOLION 31/03/2019** 8 - 13

I dderbyn adroddiad ar yr uchod gan Hefin Owen

**8. DIWEDDARIAD GRANTIAU YSGOLION 2019/20** 14 - 15

I dderbyn adroddiad ar yr uchod gan Hefin Owen.

**9. SEFYLLDA ARIANNOL POSIB 2020/21**

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod gan Dafydd L Edwards

**10. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2019/20**

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**
**Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Ystafell Dwyryd, Penrhyndeudraeth, ar 4 Mawrth o 14.00 hyd 14:50**

**Yn Bresennol:**

**Mr Godfrey Northam – Cadeirydd**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Adnoddau)

**Pennaeth Cyllid:** Dafydd Edwards

**Penaethiaid Ysgolion:** Mr Dewi Lake (Ysgol y Moelwyn), Mrs Iona Jones (Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal), Mr Trystan Larsen (Ysgol Rhosgadfan), Mrs Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn), Mr Llion Williams (Ysgol y Garnedd), Mr Alan Wynn Jones (Ysgol Nefyn), Mr Owain Lemin Roberts (Ysgol Maesincla)

**Undebau Athrawon:** Neil Foden

**Llywodraethwyr:** Mr Edward Bleddyn Jones (Ysgol Tregarth a Bodfeurig), Mr Gwilym Jones (Ysgol Borthygest)

**Swyddogion:** Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaethau Adnoddau Addysg), Hefin Owen (Rheolwr Cyllid), Annes Siôn (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Anest Gray Frazer (Yr Esgobaeth), Dylan Davies (Ysgol Dyffryn Ogwen), Dylan Minnice (Ysgol Botwnog) ac Andrew Roberts (Ysgol y Berwyn).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2018 fel rhai cywir.

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Eitem 7 – Adolygiad Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

Mynegwyd fod gwaith yn parhau gyda'r arbenigwr allanol sydd yn ymchwilio i mewn i'r gorwariant.

Eitem 8 – Rhagolygon 2019/20, 2020/21 a 2021/22

Nodwyd fod y cofnodion yn nodi fod y costau yn cynyddu a esboniwyd mai'r costau yma yw cynnydd cytundeb tal athrawon a chynnydd yng nghostau pensiwn athrawon sydd yn cyfateb i gynnydd costau o 5%.

Mynegwyd fod y Llwybrau Dysgu wedi eu hanfon at ysgolion bellach.

Diweddarwyd ar y sefyllfa o ran Canolfannau Iaith gan nodi fod ymgynghoriad wedi ei gynnal a staff ac yr undebau a bod opsiynau dan ystyriaeth. Ategwyd y bydd yn benderfyniad Cabinet y Cyngor a bod yr ad-drefnu yn deillio o ddiffyg mewn cyllideb o ganlyniad i doriad mewn grantiau gan y Llywodraeth. Mynegodd yr aelod dros yr Undebau nad oedd yn teimlo fod y crynodeb o ymateb yr Undeb a aeth i'r Cabinet yn cloriannu beth oedd barn yr undebau yn llawn.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 5. CYLLIDEB CYNGOR GWYNEDD 2019/20 - YSGOLION

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad gan nodi nad oes llawer o newid i'r gyllideb ers y cyfarfod diwethaf. Mynegodd fod y Cyngor wedi osgoi trosglwyddo targed arbedion ysgolion i ysgolion Gwynedd eto eleni. Ychwanegwyd fod y gyllideb ysgolion yn cynyddu eleni oherwydd yr addasiadau 'demograffi' arferol, sydd yn deillio o newidiadau yn niferoedd disgyblion. Tynnwyd sylw at fidiau'r Cyngor gan nodi fod argymhelliad i'r Cyngor i gytuno i ariannu bidiau gwerth £593k i'r Adran Addysg, a fydd tuag at y gyllideb cludiant ac integreiddio.

Mynegwyd ei fod yn gyllideb deg, a gyda chwyddiant o dros £4m i ystyriaeth, bydd cyllideb ysgolion dipyn uwch yn 2019/20 na'r lefel yn 2018/19. Mynegwyd fod nifer o grantiau gan Lywodraeth Cymru i'r maes Addysg yn ymddangos na fydd toriad 'cash' ond er hyn ni fydd y Llywodraeth ddim yn ychwanegu chwyddiant i'r grantiau. Felly bydd costau, sydd yn cynnwys chwyddiant cyflog a phensiwn athrawon, yn cynyddu 5%, o ganlyniad i hyn bydd ysgolion mewn sefyllfa ble fydd rhai o'r grantiau yn doriadau mewn termau 'real'. Er hyn, ychwanegwyd, y bydd grant newydd gan y Llywodraeth tuag at hyfforddi athrawon.

Trafodwyd pensiwn athrawon gan nodi fod rhagdybiaeth yn parhau y bydd y Llywodraeth yn ariannu'r cynnydd pensiynau athrawon 2019/20 drwy grant penodol. Ychwanegwyd fod ymgynghoriaeth gyda'r sector addysg yn Lloegr wedi ei gynnal ac mae son am ariannu yn llawn yn yr ysgolion yn Lloegr. Mynegwyd fod disgwyliad i hyn ddigwydd yng Nghymru yn ogystal. Ategwyd os na fydd arian yn dod gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r cynnydd mewn cyfaniadau pensiwn, neu os fydd y grant ddim yn ddigonol, bydd angen ail ymweld â hyn a thrafod ac ysgolion sut y bydd modd iddynt ddelio â'r pwysau un tro yn 2019/20.

Nodwyd fod trafodaethau wedi bod yn y Cabinet ar arbedion fydd angen eu gwneud yn 2019/20 ac ychwanegwyd fod y Cabinet wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth i beidio â thorri ar y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Ysgolion.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Holwyd os yw'r cyllidebau drafft yn cynnwys y rhagdybiaeth y bydd cyfraniad at y cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn Athrawon yn cael ei ariannu gan grant gan y Llywodraeth. Nodwyd ei fod yn cynnwys hyn yn y cyllidebau, oherwydd roedd yr Adran Gyllid yn credu ei bod yn anghyfrifol i ysgolion deimlo eu bod yn rhedeg i doriadau heb fod angen, ychwanegwyd y bydd yr adran yn ceisio cael yr arian yn llawn gan Lywodraeth Cymru. Ychwanegwyd fod cyfraniadau pensiynau ar y radar risg ond bydd angen delio yn llawn ar mater pan fydd mwy o wybodaeth.

**Penderfynwyd**: Derbyn yr adroddiad

## 6. GRANTIAU 2019/20

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod yn fwriad i ryddhau'r crynodeb o'r Grantiau Datganoledig Ysgolion iddynt gyda dyraniad eu hysgol. Esboniwyd y daenlen dyraniad gan nodi fod "arall" yng ngholofn 3 yn cynnwys arian ar gyfer hyfforddiant athrawon. Trafodwyd y grantiau sydd i'w gweld ar y daenlen.

Grant 6ed - nodwyd fod gwybodaeth wedi ei dderbyn gan y Llywodraeth am y grant hwn sydd yn cadarnhau fod £3,284,887, sydd yn £55,516 yn uwch na'r rhagolygon. Mynegwyd fod hyn yn gynnydd grant o 3.9% o'i gymharu â 2018/19 er bod nifer y disgyblion wedi lleihau. Ychwanegwyd fod disgwyl yn y dyfodol i'r ffigwr godi gyda chynnydd yn y cyfraniadau i bensiwn athrawon.

Grant Gwella Addysg - nodwyd fod yr adran yn parhau i ddisgwyl am fwy o wybodaeth. Mynegwyd fod yn ymddangos i fod yr un swm a 2018/19 er bod costau yn cynyddu a bydd hyn yn cyfateb i doriad oddeutu 5% yn nhermau real. Mynegwyd fod yr adran yn parhau i ddisgwyl am atebion, ond ychwanegwyd fod y cyfanswm cenedlaethol yn parhau'r un swm felly mae'r adran yn ffyddiog fod yr amcangyfrif yn gywir.

Grant Datblygu Disgyblion - mynegwyd fod y grant yma yn seiliedig ar PLASC Ionawr 2016 a disgwylir i'r grant barhau ar yr union yr un sail ar gyfer 2019/20. Nodwyd fod chwyddiant cyflog cymorthyddion dosbarth yn cynyddu 5%, ac felly yn nhermau real mae'r ffigwr yn doriad sylweddol.

Grant Model Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol - Nodwyd fod y Cyngor yn disgwyl siâr o £15miliwn cenedlaethol, a fydd o gwmpas £580,000 i ysgolion Gwynedd. Ychwanegwyd fod yr adran yn parhau i ddisgwyl am wybodaeth bellach.

Grant Tal Athrawon - mynegwyd fod yr wybodaeth wedi ei dderbyn at gyfer y grant hwn. Ychwanegwyd nad yw'r grant yn y setliad ond ei fod yn grant ar ben ei hun. Nodwyd fod y grant yn ddibynnol ar Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo cynllun Gwynedd sef y bwriad i ddefnyddio'r grant fel cyfraniad tuag at gost ariannu effaith blwyddyn gyfan o gytundeb tal athrawon Medi 2018 a chytundeb tal athrawon Medi 2019.

Tynnwyd sylw yn ychwanegol at grantiau ychwanegol sydd wedi/am eu derbyn yn hwyr am 2018/19. Nodwyd fod yr arian yma yn cael ei anfon yn uniongyrchol i'r ysgolion. Mynegwyd yn ogystal fod angen cadw golwg ar bensiynau athrawon, oherwydd gall fod yn broblem i'r ysgolion.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd os oes angen rhannu'r wybodaeth yma a'r ysgolion – penderfynwyd fod angen ei adael tan y byddant yn cael y dyraniad gan obeithio y bydd pob grant wedi ei gadarnhau gan y Llywodraeth erbyn hynny.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad ac i anfon y wybodaeth i'r ysgolion wrth anfon y cyllidebau

## 7. DYRANIAD CYNNAL TIR A DYRANIAD RHWYDWAITH YSGOLION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi nad yw hi wedi bod yn bosibl cael dadansoddiad o anghenion ysgolion o ran oriau craidd ac oriau dewisol mewn pryd i allu ymgynghori a ysgolion ar y dull newydd arfaethedig o ddyrannu arian. O ganlyniad i hyn, nodwyd, ni fydd

unrhyw newid i'r dull ariannu dyrannu arian cynnal tiroedd ar gyfer 2019/20. Gobeithir y bydd modd ymgynghori eleni fel bydd modd dyrannu'r arian drwy'r dull newydd yn 2020/21. Mynegwyd gan na fydd newid i'r dull dyrannu am eleni ni fydd newid, yn eithrio ychwanegu chwyddiant, at y costau o gynnal tiroedd.

Nodwyd yn yr un modd, nad yw hi wedi bod yn bosib ymgynghori ar y dull newydd o ddyrannu arian rhwydwaith ysgolion, ac felly fe fydd y sail dyrannu am eleni'r un fath ag yr oedd ar gyfer 2018/19.

**Penderfynwyd:** Derbyn a nodi'r uchod.

**8. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH CYNNAL TIR**

Nodwyd gan nad oes modd cyflawni proses i newid sail dyrannu arian cynnal tiroedd ysgolion, ni fydd newid, yn eithrio ychwanegu chwyddiant, at gostau Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer 2019/20.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad.

**9. UNRHYW FATER ARALL**

Nodwyd mai dyma fydd cyfarfod olaf y Cyng. Peredur Jenkins fel Aelod Cabinet dros Gyllid, diolchwyd yn fawr iddo am ei waith caled dros y blynyddoedd a dymunwyd yn dda iddo.

**10. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

Bydd dyddiadau am y flwyddyn yn cael ei gylchredeg.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **24 Mehefin 2019** |
| **TEITL** | **Cyfrifon Terfynol Ysgolion Blwyddyn Gyllidol 2018/19** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Garem Jackson<br>Pennaeth Addysg** |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | **Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams** |

**1 <u>Cyfrifon Terfynol 2018/19</u>**

1.1 Atodir er gwybodaeth manylion balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2019 (**atodiad 1**).

1.2 Crynodeb o falansau ysgolion ar 31/03/2019 -

| | canran | 31/03/2018 | cynnydd+/ lleihad- | 31/03/2019 | canran |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 7.92% | £2,743,044 | -£262,007 | £2,481,037 | 7.08% |
| Dilynol | 13.05% | £425,372 | +£59,418 | £484,789 | 17.06% |
| Uwchradd | 2.80% | £893,695 | +£79,991 | £973,687 | 3.02% |
| Arbennig | -1.30% | -£43,633 | +£104,493 | £60,860 | 1.62% |
| **Cyfanswm** | **5.49%** | **£4,018,478** | **-£18,105** | **£4,000,373** | **5.42%** |

1.3 Yn gyffredinol, mae balansau holl ysgolion Gwynedd wedi aros yn £4.0m cyfateb i 5.42% o'u dyraniad terfynol.

1.4 Mae gan 7 ysgol ddiffyg ariannol ar ddiwedd 2018/19 gwerth -£207,106 o'i gymharu gydag 6 ar ddiwedd 2017/18 gwerth -£306,394.

- 4 Ysgol Gynradd gyda chyfanswm diffyg -£35,271 (amrywio rhwng -£1,090 a -£28,084)
- 2 Ysgol Uwchradd gyda chyfanswm diffyg -£159,374 (-£8,233 a -£151,140)
- 1 Ysgol Arbennig gyda diffyg -£12,461

1.5 Mae cyfanswm y balansau sydd dros 5% wedi lleihau o £1,838,398 (67 ysgol) ar 31/03/2018 i £1,736,732 (67 ysgol) ar 31/03/2019.

## 2 Cynllun Cyfarwyddo Defnydd Balansau

2.1 Mae gan yr Adran Addysg rym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o'u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 i Ysgolion Cynradd ac £100,000 i Ysgolion Dilynol, Uwchradd ac Arbennig.

2.2 Mae'r drefn gweithredu yn parhau fel y llynedd.

2.3 Mae colofn 'D' (melyn) ar atodiad 1 yn amlygu'r symiau ariannol sydd dros y trothwyon –

- 15 ysgol gynradd (amrywio rhwng £1,127 a £66,428 uwchben y trothwy)
- 1 ysgol ddilynol (£384,789 uwchben y trothwy)
- 4 ysgol uwchradd (amrywio rhwng £40,776 a £242,722 uwchben y trothwy)

## 3. Casgliad

3.1 Yn Hydref 2018, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru datganiad ystadegol blynyddol ar balansau ysgolion ar gyfer 31 Mawrth 2018, gyda'r crynodeb o'r pwyntiau allweddol ar gychwyn y ddogfen yn cynnwys "***….Roedd gan Wynedd y lefel uchaf o gronfeydd wrth gefn fesul disgybl….***"

3.2 Rhagwelir bydd datganiad nesaf Llywodraeth Cymru ar gyfer balansau ysgolion ar 31 Mawrth 2019 yn parhau i ddangos balansau ysgolion Gwynedd fel yr uchaf yng Nghymru.

## 4. Argymhelliad

**4.1 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid gydweithio yn agos gyda'r ysgolion gyda diffyg ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn clirio'r diffyg cyn gynted â phosib.**

**4.2 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid barhau i fonitro cyllidebau ysgolion.**

# Cyfrifon Terfynol Ysgolion 2018/19

Eitem 7 - atodiad 1

| | | A | B | C | CH | D | DD | E | yn ystod 2018/19 | | Cyfanswm Balansau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | Balansau 31/03/2017 | Balansau 31/03/2018 | Balansau 31/03/2019 | Dyraniad Terfynol 2018/19 | Balansau 31/03/2019 fel % o'r Dyraniad | cynnydd | lleihad | dros 5% 31/03/2019 | dros £50k neu £100k 31/03/2019 |
| | 1 | 2000 | Gwaun Gynfi | £45,577 | £52,915 | **£30,002** | £498,122 | 6.02% | | -£22,913 | £5,096 | |
| | 2 | 2004 | Nefyn | £24,609 | £22,489 | **£18,072** | £555,638 | 3.25% | | -£4,417 | | |
| | 3 | 2006 | Llanrug | £22,253 | £39,204 | **£23,916** | £772,084 | 3.10% | | -£15,288 | | |
| | 4 | 2008 | Abererch | £11,470 | £38,058 | **£38,927** | £300,874 | 12.94% | £870 | | £23,883 | |
| * | 5 | 2009 | Abersoch | £4,166 | £7,805 | **£3,068** | £128,278 | 2.39% | | -£4,737 | | |
| * | 6 | 2010 | Beddgelert | £11,326 | £29,241 | **£19,009** | £160,008 | 11.88% | | -£10,232 | £11,009 | |
| | 7 | 2011 | Bethel | £8,333 | £25,484 | **£15,175** | £515,370 | 2.94% | | -£10,309 | | |
| | 8 | 2013 | Bodfeurig | £21,256 | £18,534 | **£13,353** | £246,968 | 5.41% | | -£5,181 | £1,005 | |
| | 9 | 2015 | Borthygest | £11,338 | £40,061 | **£34,857** | £240,301 | 14.51% | | -£5,204 | £22,842 | |
| | 10 | 2017 | Brynaerau | £19,021 | £38,828 | **£30,303** | £239,776 | 12.64% | | -£8,525 | £18,314 | |
| | 11 | 2026 | Y Gelli | £30,976 | £38,452 | **£36,763** | £675,955 | 5.44% | | -£1,689 | £2,965 | |
| | 12 | 2028 | Penybryn | £71,576 | £65,652 | **£34,919** | £494,392 | 7.06% | | -£30,733 | £10,199 | |
| | 13 | 2033 | Treferthyr | £18,945 | £37,838 | **£27,527** | £387,861 | 7.10% | | -£10,312 | £8,134 | |
| * | 14 | 2035 | Cwm Y Glo | £11,276 | £18,102 | | £171,285 | | | -£18,102 | | |
| * | 15 | 2036 | Chwilog | £547 | -£6,097 | **-£4,538** | £197,500 | -2.30% | £1,560 | | | |
| | 16 | 2039 | Crud Y Werin | £123 | £3,936 | **£17,857** | £242,527 | 7.36% | £13,922 | | £5,731 | |
| | 17 | 2042 | Dolbadarn | £87,506 | £85,755 | **£45,877** | £584,346 | 7.85% | | -£39,878 | £16,660 | |
| | 18 | 2046 | Edern | £36,403 | £28,721 | **£9,513** | £285,038 | 3.34% | | -£19,208 | | |
| * | 19 | 2047 | Felinwnda | £7,716 | £26,916 | **£40,921** | £164,283 | 24.91% | £14,005 | | £32,707 | |
| | 20 | 2048 | Bro Plennydd | £1,418 | £9,012 | **£25,777** | £307,127 | 8.39% | £16,765 | | £10,420 | |
| | 21 | 2049 | Garndolbenmaen | £9,915 | £21,387 | **£6,790** | £197,013 | 3.45% | | -£14,597 | | |
| * | 22 | 2051 | Glanadda | £19,025 | £36,977 | **£59,565** | £234,603 | 25.39% | £22,588 | | £47,835 | £9,565 |
| * | 23 | 2059 | Llanaelhaearn | -£1,431 | £20,703 | **£21,452** | £180,672 | 11.87% | £749 | | £12,418 | |
| | 24 | 2060 | Llanbedrog | £9,672 | £10,842 | **£3,325** | £317,025 | 1.05% | | -£7,517 | | |
| * | 25 | 2066 | Llangybi | £8,944 | £13,230 | **£3,638** | £212,069 | 1.72% | | -£9,592 | | |
| | 26 | 2069 | Llanllechid | £6,943 | £23,846 | **£76,348** | £817,325 | 9.34% | £52,502 | | £35,481 | £26,348 |
| | 27 | 2070 | Llanllyfni | £59,558 | £61,574 | **£63,706** | £307,129 | 20.74% | £2,131 | | £48,349 | £13,706 |
| * | 28 | 2075 | Bab Morfa Nefyn | £19,313 | £20,974 | **£24,633** | £201,273 | 12.24% | £3,659 | | £14,569 | |
| * | 29 | 2078 | Baladeulyn | -£2,219 | £15,009 | **£17,723** | £173,255 | 10.23% | £2,714 | | £9,061 | |
| * | 30 | 2081 | Nebo | £13,191 | £5,365 | **£13,431** | £179,196 | 7.49% | £8,066 | | £4,471 | |

| | | A | B | C | CH | D | DD | E | yn ystod 2018/19 | | Cyfanswm Balansau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | Balansau 31/03/2017 | Balansau 31/03/2018 | **Balansau 31/03/2019** | Dyraniad Terfynol 2018/19 | Balansau 31/03/2019 fel % o'r Dyraniad | cynnydd | lleihad | dros 5% 31/03/2019 | dros £50k neu £100k 31/03/2019 |
| | 31 | 2085 | Penisarwaen | £8,795 | £13,200 | **-£1,560** | £220,349 | -0.71% | | -£14,760 | | |
| | 32 | 2089 | Bro Lleu | £26,412 | £47,185 | **£4,460** | £685,207 | 0.65% | | -£42,724 | | |
| | 33 | 2093 | Pentreuchaf | £5,297 | £23,352 | **£13,858** | £416,441 | 3.33% | | -£9,494 | | |
| * | 34 | 2097 | Rhiwlas | -£3,927 | £11,048 | **£21,632** | £229,652 | 9.42% | £10,585 | | £10,150 | |
| | 35 | 2098 | Rhosgadfan | -£2,087 | £7,730 | **£9,883** | £204,057 | 4.84% | £2,153 | | | |
| | 36 | 2099 | Rhostryfan | -£4,536 | £14,807 | **£19,824** | £294,496 | 6.73% | £5,017 | | £5,099 | |
| | 37 | 2103 | Sarn Bach | £28,095 | £22,448 | **£26,267** | £210,919 | 12.45% | £3,819 | | £15,721 | |
| | 38 | 2104 | Eifion Wyn | £22,458 | £32,020 | **£16,531** | £741,606 | 2.23% | | -£15,489 | | |
| | 39 | 2108 | Talysarn | £50,777 | £57,079 | **£48,869** | £405,907 | 12.04% | | -£8,210 | £28,574 | |
| | 40 | 2110 | Y Gorlan | £47,886 | £53,213 | **£53,416** | £409,463 | 13.05% | £203 | | £32,943 | £3,416 |
| | 41 | 2111 | Yr Eifl | £26,642 | £41,240 | **£32,352** | £241,486 | 13.40% | | -£8,887 | £20,278 | |
| | 42 | 2112 | Tudweiliog | -£2,765 | £18,046 | **£7,677** | £200,595 | 3.83% | | -£10,369 | | |
| | 43 | 2113 | Waunfawr | £4,241 | £28,573 | **£20,074** | £454,485 | 4.42% | | -£8,498 | | |
| | 44 | 2116 | Glancegin | £122,484 | £114,372 | **£56,613** | £874,611 | 6.47% | | -£57,759 | £12,882 | £6,613 |
| * | 45 | 2118 | Bab Coed Mawr | £52,500 | £33,331 | **£31,377** | £159,205 | 19.71% | | -£1,954 | £23,416 | |
| | 46 | 2119 | Yr Hendre | -£1,080 | £21,045 | **-£28,084** | £1,400,003 | -2.01% | | -£49,129 | | |
| | 47 | 2122 | Bontnewydd | £30,648 | £37,549 | **£46,452** | £639,472 | 7.26% | £8,903 | | £14,478 | |
| | 48 | 2123 | Y Garnedd | £19,123 | £46,370 | **£21,091** | £993,520 | 2.12% | | -£25,279 | | |
| | 49 | 2125 | Cymerau | £57,450 | £64,552 | **£58,242** | £1,100,806 | 5.29% | | -£6,310 | £3,202 | £8,242 |
| | 50 | 2126 | Abercaseg | £13,178 | £32,163 | **£63,276** | £455,115 | 13.90% | £31,113 | | £40,520 | £13,276 |
| | 51 | 2127 | Y Felinheli | £4,599 | £15,052 | **£31,872** | £547,666 | 5.82% | £16,820 | | £4,488 | |
| | 52 | 2180 | Bala | £17,433 | £41,721 | **£40,162** | £417,725 | 9.61% | | -£1,559 | £19,276 | |
| | 53 | 2181 | Traeth | £37,057 | £51,385 | **£46,984** | £707,987 | 6.64% | | -£4,401 | £11,585 | |
| | 54 | 2185 | Corris | £18,888 | £20,079 | **£6,268** | £274,765 | 2.28% | | -£13,811 | | |
| | 55 | 2189 | Dyffryn Ardudwy | £41,715 | £40,902 | **£29,868** | £285,112 | 10.48% | | -£11,034 | £15,612 | |
| | 56 | 2190 | Bro Cynfal | £4,644 | £19,428 | **£23,686** | £269,871 | 8.78% | £4,258 | | £10,192 | |
| * | 57 | 2192 | Edmwnd Prys | £3,713 | £17,425 | **£12,253** | £207,453 | 5.91% | | -£5,172 | £1,881 | |
| | 58 | 2194 | Llanbedr | £16,384 | £23,965 | **£15,010** | £214,370 | 7.00% | | -£8,955 | £4,291 | |
| * | 59 | 2198 | Y Garreg | £12,403 | £16,102 | **£19,122** | £168,639 | 11.34% | £3,020 | | £10,690 | |
| | 60 | 2199 | O.M.Edwards | £24,696 | £34,551 | **£26,082** | £346,379 | 7.53% | | -£8,469 | £8,763 | |
| | 61 | 2205 | Manod | £49,201 | £71,260 | **£65,318** | £359,076 | 18.19% | | -£5,941 | £47,365 | £15,318 |
| * | 62 | 2207 | Pennal | £3,803 | £7,889 | **-£1,090** | £178,348 | -0.61% | | -£8,979 | | |

| | | A | B | C | CH | D | DD | E | yn ystod 2018/19 | | Cyfanswm Balansau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | Balansau 31/03/2017 | Balansau 31/03/2018 | Balansau 31/03/2019 | Dyraniad Terfynol 2018/19 | Balansau 31/03/2019 fel % o'r Dyraniad | cynnydd | lleihad | dros 5% 31/03/2019 | dros £50k neu £100k 31/03/2019 |
| | 63 | 2208 | Cefn Coch | £25,055 | £45,104 | **£51,127** | £610,045 | 8.38% | £6,023 | | £20,625 | £1,127 |
| * | 64 | 2210 | Talsarnau | -£5,761 | £12,853 | **£23,868** | £194,363 | 12.28% | £11,015 | | £14,150 | |
| | 65 | 2211 | Tanygrisiau | -£9,812 | £13,632 | **£14,152** | £272,877 | 5.19% | £520 | | £509 | |
| | 66 | 2212 | Penybryn | £27,322 | £40,399 | **£60,879** | £797,014 | 7.64% | £20,481 | | £21,028 | £10,879 |
| | 67 | 2213 | Bro Hedd Wyn | £28,991 | £15,312 | **£21,199** | £282,793 | 7.50% | £5,887 | | £7,059 | |
| | 68 | 2214 | Frongoch | £48,704 | £45,144 | **£39,261** | £186,154 | 21.09% | | -£5,883 | £29,954 | |
| | 69 | 2219 | Tan y Castell | £15,263 | £12,791 | **£4,505** | £302,880 | 1.49% | | -£8,286 | | |
| | 70 | 2220 | Ffridd y Llyn | £23,084 | £59,689 | **£45,835** | £240,518 | 19.06% | | -£13,854 | £33,809 | |
| | 71 | 2221 | Maenofferen | £31,821 | £42,638 | **£75,607** | £790,241 | 9.57% | £32,968 | | £36,095 | £25,607 |
| | 72 | 2227 | Hirael | £38,166 | £27,025 | **£54,168** | £621,134 | 8.72% | £27,143 | | £23,112 | £4,168 |
| | 73 | 2228 | Craig y Deryn | £4,774 | £12,530 | **£32,128** | £517,199 | 6.21% | £19,598 | | £6,268 | |
| | 74 | 2229 | Bro Llifon | £19,557 | £40,198 | **£66,440** | £504,018 | 13.18% | £26,242 | | £41,239 | £16,440 |
| | 75 | 3004 | Pont y Gôf | £65,171 | £61,217 | **£24,933** | £398,241 | 6.26% | | -£36,284 | £5,021 | |
| | 76 | 3005 | Maesincla | £97,763 | £93,329 | **£116,428** | £1,170,609 | 9.95% | £23,099 | | £57,898 | £66,428 |
| | 77 | 3009 | Faenol | £40,761 | £76,217 | **£79,077** | £664,808 | 11.89% | £2,861 | | £45,837 | £29,077 |
| * | 78 | 3010 | Foelgron | £5,891 | £16,628 | **£13,561** | £182,527 | 7.43% | | -£3,067 | £4,434 | |
| | 79 | 3013 | Llandygai | £82,911 | £57,774 | **£47,424** | £540,300 | 8.78% | | -£10,350 | £20,409 | |
| * | 80 | 3018 | Llandwrog | £26,882 | £27,898 | **£24,299** | £198,404 | 12.25% | | -£3,600 | £14,378 | |
| * | 81 | 3023 | Llanystumdwy | -£2,063 | £6,255 | **£4,839** | £186,555 | 2.59% | | -£1,416 | | |
| | 82 | 3029 | Tregarth | £36,904 | £33,326 | **£26,487** | £397,531 | 6.66% | | -£6,839 | £6,611 | |
| | 83 | 3030 | Cae Top | £4,869 | -£1,794 | **£823** | £794,774 | 0.10% | £2,617 | | | |
| | 84 | 3300 | Santes Helen | £27,257 | £32,986 | **£32,556** | £323,852 | 10.05% | | -£429 | £16,364 | |
| | 85 | 3301 | Our Lady | £18,259 | £13,085 | **£21,932** | £401,747 | 5.46% | £8,847 | | £1,845 | |
| * | 86 | 3305 | Beuno Sant | £24,704 | £28,914 | **£9,812** | £174,334 | 5.63% | | -£19,102 | £1,095 | |
| | | | **CYNRADD** | **£2,001,347** | **£2,743,044** | **£2,481,037** | **£35,054,997** | **7.08%** | **£412,723** | **-£674,731** | **£1,090,297** | **£250,211** |

* 21 ysgol yn derbyn gwarchodaeth lleiafswm staffio yn 2018/19

| | | A | B | C | CH | D | DD | E | yn ystod 2018/19 | | Cyfanswm Balansau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | Balansau 31/03/2017 | Balansau 31/03/2018 | Balansau 31/03/2019 | Dyraniad Terfynol 2018/19 | Balansau 31/03/2019 fel % o'r Dyraniad | cynnydd | lleihad | dros 5% 31/03/2019 | dros £50k neu £100k 31/03/2019 |
| * | | | **Bro Idris cyfanswm** | **£219,244** | **£425,372** | **£484,789** | **£2,841,379** | **17.06%** | **£59,418** | | **£342,720** | **£384,789** |

* 3 safle cynradd yn derbyn gwarchodaeth lleiafswm staffio yn 2018/19

| | | A | B | C | CH | D | DD | E | cynnydd | lleihad | dros 5% | dros £50k neu £100k |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 4002 | Dyffryn Ogwen | £94,870 | £6,929 | **£20,629** | £2,229,671 | 0.93% | £13,699 | | | |
| | 2 | 4003 | Botwnnog | -£40,937 | -£5,719 | **-£8,233** | £1,889,616 | -0.44% | | -£2,515 | | |
| | 3 | 4004 | Brynrefail | £134,145 | £270,928 | **£204,678** | £3,210,140 | 6.38% | | -£66,250 | £44,171 | £104,678 |
| | 4 | 4007 | Dyffryn Nantlle | £74,256 | £109,107 | **£36,025** | £2,161,618 | 1.67% | | -£73,083 | | |
| | 5 | 4009 | Eifionydd | £19,075 | £13,202 | **£51,086** | £1,853,623 | 2.76% | £37,884 | | | |
| | 6 | 4031 | Y Moelwyn | £248,184 | £255,262 | **£140,776** | £1,853,261 | 7.60% | | -£114,486 | £48,113 | £40,776 |
| | 7 | 4032 | Tywyn | -£116,177 | -£49,034 | **£41,014** | £1,612,890 | 2.54% | £90,048 | | | |
| * | 8 | 4033 | Y Berwyn | -£94,699 | -£118,938 | **-£151,140** | £1,706,323 | -8.86% | | -£32,202 | | |
| | 9 | 4034 | Ardudwy | £54,177 | £46,401 | **£49,762** | £1,585,924 | 3.14% | £3,361 | | | |
| | 10 | 4036 | Friars | £14,982 | £60,157 | **£22,822** | £5,434,044 | 0.42% | | -£37,335 | | |
| | 11 | 4037 | Tryfan | £27,384 | £57,495 | **£34,140** | £2,255,531 | 1.51% | | -£23,355 | | |
| | 12 | 4039 | Syr Hugh Owen | -£39,083 | £43,445 | **£342,722** | £4,060,638 | 8.44% | £299,277 | | £139,690 | £242,722 |
| | 13 | 4040 | Glan Y Môr | £238,535 | £204,459 | **£189,407** | £2,353,329 | 8.05% | | -£15,052 | £71,740 | £89,407 |
| | | | **UWCHRADD** | **£614,710** | **£893,695** | **£973,687** | **£32,206,611** | **3.02%** | **£444,269** | **-£364,277** | **£303,714** | **£477,583** |

* 1 ysgol yn derbyn gwarchodaeth lleiafswm staffio yn 2018/19

| | A | B | C | CH | D | DD | E | cynnydd | lleihad | dros 5% | dros £50k neu £100k |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 3502 | Pendalar | -£88,919 | -£124,811 | **-£12,461** | £1,952,418 | -0.64% | £112,350 | | | |
| 2 | 3503 | Hafod Lon | £132,149 | £81,178 | **£73,321** | £1,795,945 | 4.08% | | -£7,857 | | |
| | | **ARBENNIG** | **£43,230** | **-£43,633** | **£60,860** | **£3,748,363** | **1.62%** | **£112,350** | **-£7,857** | **£0** | **£0** |
| | | **CYFANSWM** | **£2,878,532** | **£4,018,478** | **£4,000,373** | **£73,851,350** | **5.42%** | **£1,028,760** | **-£1,046,865** | **£1,736,732** | **£1,112,583** |

| | | cynnydd | lleihad | dros 5% | dros £50k neu £100k |
|---|---|---|---|---|---|
| nifer ysgolion | CYNRADD | 35 | 51 | 62 | 15 |
| | DILYNOL | 1 | 0 | 1 | 1 |
| | UWCHRADD | 5 | 8 | 4 | 4 |
| | ARBENNIG | 1 | 1 | 0 | 0 |
| | **CYFANSWM** | **42** | **60** | **67** | **20** |

**EITEM 8**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **24 Mehefin 2019** |
| **TEITL** | **Diweddariad Grantiau Ysgolion 2019/20** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Garem Jackson**<br>**Pennaeth Addysg** |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | **Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams** |

1. Diweddaru'r Fforwm ar sefyllfa Grantiau Ysgolion 2019/20 – gweler atodiad 1

2. Argymhelliad
   Derbyn y wybodaeth

## Amcangyfrif Adnoddau Cyllidol Ysgolion 2019/20

Eitem 8 - atodiad 1

**Taenlen sy'n amlygu'r adnoddau ariannol bydd Ysgolion yn derbyn uwchben dyraniad fformiwla Cyngor Gwynedd**

| | | | | Cynradd | Ddilynol | Uwchradd | Arbennig | cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Dyraniad** | | | **£34,376,020** | **£4,088,063** | **£29,014,042** | **£3,953,627** | **£71,431,752** |
| | **Adnoddau ariannol ychwanegol -** | | | | | | | |
| 2 | Grant 6ed | | | | £140,369 | £3,165,588 | | £3,305,957 |
| 3 | Grant Gwella Addysg | | | | | | | |
| | 3.1 | Cyfnod Sylfaen | | £2,834,924 | £129,203 | | | £2,964,127 |
| | 3.2 | Llwybrau Dysgu 14-16 oed | | | £4,933 | £45,103 | | £50,036 |
| | 3.3 | Arall | | £500,980 | £44,811 | £340,672 | £16,272 | £902,735 |
| 4 | Grant Datblygu Disgyblion | | | | | | | |
| | 4.1 | dan 5oed | | £265,475 | £10,325 | | | £275,800 |
| | 4.2 | 5-15oed | | £1,171,083 | £96,121 | £739,546 | £35,650 | £2,042,400 |
| | 4.3 | arall | | £8,625 | | | £4,600 | £13,225 |
| 5 | Grant Model Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol | | amcan | £278,886 | £33,257 | £250,893 | £16,087 | £579,123 |
| 6 | Grant Tâl Athrawon | | amcan | £141,044 | £17,893 | £127,985 | £13,077 | £299,999 |
| 7 | Grant Pensiwn Athrawon - Medi 2019 | | amcan | £754,324 | £112,856 | £656,140 | £47,825 | £1,571,145 |
| **8** | **cyfanswm adnoddau ariannol ychwanegol** | | **amcan** | **£5,955,341** | **£589,768** | **£5,325,927** | **£133,511** | **£12,004,547** |
| | | | | | | | | |
| **9** | **cyfanswm adnoddau cyllidol 2019/20** | | **amcan** | **£40,331,361** | **£4,677,831** | **£34,339,969** | **£4,087,138** | **£83,436,299** |